Annwyl Partneriaeth Natur Leol Ceredigion,

**Gynllun Rheoli Coedwig, Pencoedtop, Ffostrasol**

Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o Gynllun Rheoli Coedwig (CRhC) sy'n cael ei baratoi ar gyfer Coedwig Tricorn-Turret, a elwir Pencoedtop hefyd. Mae'r CRhC yn ystyried y bwriad o ran y gwaith rheoli ar gyfer y safle dros y tymor hir, ac mae'n cynnwys caniatâd rheoliadol ar gyfer cwympo coed yn ystod y 5 mlynedd gyntaf; bydd hefyd yn ein galluogi i fanteisio ar grantiau rheoli coetir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r safle yn eiddo i Bob Jacques a'i deulu.

Ein gweledigaeth ar gyfer y tymor hir yw manteisio i'r eithaf ar fioamrywiaeth trwy adfer y safle i fod yn frithwaith o goetir llydanddail brodorol nodweddiadol gydag ardaloedd agored a fydd yn cynnwys llwybrau, llennyrch a rhostir sych a gwlyb. Cyflawnir hyn trwy gyfrwng yr amcanion rheoli, sydd fel a ganlyn:

- Gwaredu rhan fwyaf y coed conwydd, gan adael y coed llydanddail brodorol.
- Sefydlu coedlan cylchdro traddodiadol, lle y torrir ardaloedd bychain o rywogaethau coed llydanddail brodorol i'r ddaear a'u haildyfu yn unol â chylch rheolaidd.
- Adfer a chynnal a chadw ardaloedd agored o fewn y goedwig, gan gynnwys rhostir a llwybrau a llennyrch.
- Nodi cyfleoedd ar gyfer ardaloedd ail-wlychu er mwyn creu cynefinoedd rhostir gwlyb, a'u cyflawni.
- Gwella a chynnal a chadw y safle fel ased cymunedol ac addysgol.
- Byddwn hefyd yn gwneud rhywfaint o waith cyfyngedig i blannu coed a blodau gwyllt.

Yn wreiddiol, gwnaethpwyd y safle yn goedwig fel planhigfa coed conwydd yn y 1960au, ar dir yr oedd mapiau yr Arolwg Ordnans yn nodi ei fod yn rhostir gwlyb ac yn dir pori garw yn flaenorol. Fe'i lleolir yn ne Ceredigion, tuag 1 filltir (1.5 cilomedr) i'r gogledd o Ffostrasol; mae canol y safle yn NGR SN 371 493. Mae Pencoedtop yn 9 hectar (22 erw) o dir ar lethr ysgafn sydd tua 300m uwch lefel y môr, ac fe arferai fod yn rhan o goetir mwy o faint o'r enw Coed Garn-Wen neu goedwig Pengaer (mae'r safle cyfan tua 40 hectar.)

Adeg y plannu, gwnaethpwyd gwaith draenio artiffisial ar y safle, ac roedd hyn yn cynnwys ffosydd coedwig a draeniau croes, a phlannwyd coed conwydd (sbriws Sitka a phinwydd Lodgepole). Ers hynny, cynhaliwyd cylch plannu a chwympo llawn yno, a chwympwyd y cnwd gwreiddiol yn 2005. Yn dilyn hyn, ailblannwyd coed llydanddail brodorol cymysg yma (derw, bedw, criafol, celyn, gwern) ac fe'u gwerthwyd ar ffurf parseli i berchnogion preifat.

Ers hynny, gwelwyd aildyfiant sylweddol o'r sbriws Sitka, a rhai coed pinwydd Lodgepole, llarwydd Japan a ffynidwydd y Cawcasws, yn ogystal â nifer o goed helyg llwyd a chlustiog sydd wedi hunan-hadu. Mae strwythur presennol y coed llydanddail cymysg a blannwyd, a choed helyg a choed conwydd egsotig sydd wedi adfywio yn naturiol, wedi creu coetir o natur amrywiol iawn, gyda sbriws Sitka brigdwf caeedig a choetir llydanddail cymharol agored ar draws rhan fwyaf y safle. Mae tua 50% o'r safle yn dangos llystyfiant rhostir (rhostir sych i'r gogledd o'r safle, a llystyfiant mwy corslyd i'r de-ddwyrain, gyda rhywogaethau Migwyn).

Yn syml iawn, mae'r cynlluniau gweithredol ar gyfer y safle fel a ganlyn:

- gwaredu tua 95% o'r coed conwydd (y mae trwydded cwympo coed wedi cael ei chymeradwyo ar gyfer y gwaith hwn) ym mhob rhan ac eithrio 2a,

- bod y coed llydanddail sy'n weddill yn cael eu rheoli fel coedlan gyda safonau (math o reolaeth coedwig sy'n golygu cynhyrchu llawer o goed crwn bychain ar ffurf cylch rheolaidd (tua 20 mlynedd), ynghyd â choed mwy o faint heb eu torri – safonau),
- Bod ardaloedd heb goed (llennyrch, llwybrau ac ymylon llwybrau) yn ardaloedd 1, 2b a 2c, yn cael eu cynnal fel hynny trwy gyfrwng cymysgedd o ddulliau mecanyddol a phori gan dda byw,
- ar gyfer ardaloedd gwlypach, sydd yn adran 2c yn bennaf ac wrth ben deheuol 2b, yn cael dychwelyd i gyflwr corsiog trwy rwystro rhai o'r draeniau artiffisial o'r 1960au a chreu pyllau dŵr tymhorol a phyllau bychain,
- a bod y prif lwybrau pridd rhwng adrannau 1 a 2 yn cael eu huwchraddio i fod yn llwybr pob tywydd.

Caiff y CRhC ei lunio gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Treftadaeth trwy gyfrwng y Grant Buddsoddi mewn Coetir (GBMC). Ar ôl cwblhau'r cynllun ac ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan dîm caniatáu coetir Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn gallu gwneud cais iddo gael ei gynnwys yng Nghoedwig Genedlaethol Cymru, yn ogystal â chael help pellach i dalu am rywfaint o'r gwaith a gynlluniwyd, megis uwchraddio i lwybrau coedwig, gwaith torri tir agored a llwybrau mecanaidd ar gyfer cadwraeth, creu gwlyptiroedd trwy lenwi ffosydd, a chreu cynllun rheoli bywyd gwyllt.

Mae'r map sydd ynghlwm yn dangos lleoliad a graddau'r safle, yn ogystal â chynllun yr adrannau.

Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn rhan bwysig o waith cynllunio rheoli coedwigoedd, ac rydym yn dymuno ymgysylltu â'n cymdogion, ymgyngoreion statudol, a'r gymuned leol. Byddem yn ddiolchgar iawn pe baech yn gallu ymateb i'n cynnig – hyd yn oed os byddwch yn dweud yn syml nad oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud – cyn pen 14 diwrnod, ac mae modd gwneud hyn yn ysgrifenedig, trwy anfon neges e-bost, neges destun, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Yn gywir,

Duncan Winton (Ymgynghorydd coedwigaeth)

Bob Jacques (perchennog/rheolwr)

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein cynllun, neu os hoffech gael rhagor o fanylion am ein cynnig, cysylltwch â: Bob Jacques, e-bost pencoedtop@gmail.com, rhif ffôn 07903 208559.

Ariannir y prosiect hwn gan gynllun Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG). Mae'n cael ei ddarparu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'u Rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru.

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â **Llywodraeth Cymru**
In Partnership with **Welsh Government**